Polisi Ymwelwyr Allanol Llyfrgelloedd a Chasgliadau

Diweddarwyd Ddiwethaf: Mis Ionawr 2025
Dyddiad Adolygu Nesaf: Mis Medi 2026
Corff Cymeradwyo: Tîm Arweinyddiaeth Llyfrgelloedd a Chasgliadau
Perchennog: Llyfrgelloedd a Chasgliadau (Tîm Gweithrediadau)
Awdur: Amber Arrowsmith

1.Cefndir / Crynodeb

Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe ar gyfer myfyrwyr a staff cyfredol Prifysgol Abertawe yn bennaf. Rydym yn caniatáu mynediad at ein llyfrgelloedd ar Gampws Singleton a Champws y Bae a Llyfrgell Glowyr De Cymru ar gyfer y gymuned ehangach. Mae cyfyngiadau i fynediad allanol sy'n cael eu hamlinellu yn yr adran Cwmpas ac Eithriadau (Adran 3) isod.

2. Diben

Diben y Polisi Ymwelwyr Allanol hwn yw darparu arweiniad tryloyw a chyson i ymwelwyr allanol sy'n defnyddio Llyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe. Mae'r Polisi'n sicrhau y gall ymwelwyr gynllunio eu hymweliad a deall pa fynediad sydd ar gael iddynt o flaen llaw. Mae hefyd yn amlinellu rheolau a rheoliadau sy'n berthnasol i ymwelwyr allanol.

3. Cwmpas / Eithriadau

Arweiniad i Ymwelwyr Cyffredinol

- Gall Ymwelwyr Allanol ymweld â Llyfrgelloedd Parc Singleton a Champws y Bae, neu Lyfrgell Glowyr De Cymru yn ystod oriau staffio (oriau agor desg wybodaeth y llyfrgell) a nodir ar dudalen we Oriau Agor a Lleoliadau Llyfrgelloedd
- Ein nod yw sicrhau'r nifer lleiaf posibl o gyfnodau â mynediad cyfyngedig a darparu mynediad i ymwelwyr pryd bynnag bo'n bosibl. Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau prysuraf y flwyddyn academaidd, megis cyfnodau adolygu ac arholiadau, efallai bydd mynediad i'r llyfrgelloedd ar gyfer staff a myfyrwyr cyfredol yn unig. Mae penderfyniadau i gyfyngu ar fynediad yn seiliedig ar alw go iawn a/neu adborth gan fyfyrwyr a staff, a gellir rhoi'r cyfyngiadau ar waith ar fyr rybudd.

- Cynghorir ymwelwyr i gynllunio eu hymweliadau o flaen llaw a gwirio tudalennau gwe Llyfrgelloedd a Chasgliadau cyn teithio. Caiff gwybodaeth ynghylch oriau agor sydd wedi'u staffio a chyfyngiadau mynediad dros dro ei diweddaru'n rheolaidd a dylech wirio'r wybodaeth cyn pob ymweliad.
- Gall disgyblion ysgolion a cholegau sydd yn 16 oed neu'n hŷn ddefnyddio ein llyfrgelloedd i gefnogi eu hastudiaethau. Yn unol â Pholisi Plant ar Safleoedd y Brifysgol Prifysgol Abertawe, rhaid bod ymwelwyr dan 16 oed yn dod gydag oedolyn.
- Rhaid i Ymwelwyr Archifau Richard Burton drefnu apwyntiad cyn eu hymweliad.
- Dylai ymwelwyr drin adeiladau'r llyfrgelloedd, casgliadau, adnoddau a chyfleusterau yn ofalus. Dylai ymwelwyr barchu myfyrwyr, staff a defnyddwyr eraill y llyfrgelloedd, a rhoi ystyriaeth briodol i'r rhai hynny sy'n defnyddio lleoedd astudio at ddibenion academaidd ac ymchwil.
- Dylai ymwelwyr edrych ar ôl eu heiddo personol ac ni ddylent eu gadael. Nid yw Llyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe'n gyfrifol am unrhyw golled, dwyn neu niwed i eiddo personol.

Mynediad i Ymwelwyr Allanol

Gofynnwn i chi gynllunio eich ymweliad o flaen llaw.

- **Y cyhoedd:** Mae cynllun dwyochrog Pasbort Llyfrgelloedd Ynghyd yn galluogi unrhyw aelod cyfredol o wasanaethau llyfrgell cyhoeddus Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro i gael mynediad benthyca am ddim ym Mhrifysgol Abertawe a llyfrgelloedd addysg bellach ac addysg uwch lleol eraill. Cysylltwch â changen eich llyfrgell leol agosaf am fanylion am sut i ymuno.
- Mae croeso i **Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches** ddefnyddio ein llyfrgelloedd drwy'r cynllun Llyfrgelloedd Ynghyd.
- **Aelodau SCONUL:** Mae Prifysgol Abertawe'n aelod o gynllun Mynediad SCONUL, gan alluogi aelodau o brifysgolion eraill i gael mynediad benthyca at y llyfrgelloedd a'u casgliadau. Cysylltwch â'ch sefydliad eich hun am fanylion ynghylch sut i gofrestru.
- Mae croeso i **gyn-fyfyrwyr** ddefnyddio'r Cynllun Llyfrgelloedd Ynghyd neu, os ydynt yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgol arall yn y DU, drwy'r cynllun Mynediad SCONUL fel yr amlinellir uchod.
- **Mynediad cyfeirio yn unig:** Gall myfyrwyr o brifysgolion eraill ddefnyddio lleoedd astudio'r llyfrgelloedd a defnyddio'r casgliadau ar sail cyfeirio yn unig.

Ymweliadau grwpiau ysgolion

- Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe'n croesawu ymweliadau sydd wedi'u cynllunio gan grwpiau ysgolion at ddibenion astudio a/neu ymgynghori ag adnoddau, casgliadau arbennig neu dimau arbenigol y

llyfrgelloedd. Rhaid bod athrawon a/neu arweinwyr ysgolion gyda'r grwpiau drwy gydol eu hymweliad.

- Dylai ymweliadau ysgolion gael eu trefnu o flaen llaw drwy e-bostio tîm y Llyfrgell. Sylwer bod yr holl ymweliadau'n ddarostyngedig i asesiadau risg a rhaid iddynt fod yn unol â Pholisi Diogelu'r Brifysgol.

Mynediad Wi-Fi i Ymwelwyr

- Mae rhwydwaith Ymwelwyr Prifysgol Abertawe ar gael i ymwelwyr a gwesteion y Brifysgol.

Adnoddau ar-lein y llyfrgelloedd a chyfyngiadau i ymwelwyr

- Gall ymwelwyr i Lyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe gael mynediad at amrywiaeth o e-adnoddau'r llyfrgelloedd (megis e-gyfnodolion a chronfeydd data'r llyfrgelloedd). Mae mynediad cyfyngedig ar gael i ddefnyddio'r adnoddau hyn yn adeiladau ein llyfrgelloedd.
- Gellir tynnu mynediad at e-adnoddau'r llyfrgelloedd yn ôl ar unrhyw adeg.
- Dylid defnyddio'r e-adnoddau sydd ar gael i ymwelwyr at ddibenion addysgol yn unig megis addysg, ymchwil neu astudio annibynnol. Mae ein trwyddedau ar gyfer yr adnoddau hyn yn gwahardd y defnydd at ddibenion masnachol neu fusnes.
- Mae chwiliadau ar gyfer e-adnoddau yn gyfyngedig i blatfformau adnoddau unigol y llyfrgell. Nid yw'n bosibl chwilio'r holl e-adnoddau ar draws gwasanaethau'r llyfrgell mewn un chwiliad unigol.

4. Datganiad Polisi

Mae gan Lyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe yr hawl i atal neu gyfyngu ar fynediad i Lyfrgelloedd a Chasgliadau ar unrhyw adeg.

Mae gan Lyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe yr hawl i newid neu addasu'r polisi hwn ar unrhyw adeg.

5. Hanes Polisi

Dyddiad Diwygio	Awdur	Disgrifiad
Fersiwn flaenorol Ionawr 2025 Fersiwn gyfredol Medi 2026	Amber Arrowsmith	Adolygiad o'r datganiad ac ailfformatio'r templed